# 1. Themâu o'r dystiolaeth

## 1. 1. Trosolwg

Yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â sawl math o weithgaredd rhyngwladol, yn enwedig yn yr UE, er gwaethaf y cyfyngiadau cyfansoddiadol sylweddol y mae'n gweithredu ynddynt. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Dr Dafydd, er enghraifft, yn nodi bod creadigrwydd yn un o nodweddion dull Llywodraeth Cymru wrth iddi ystyried sianeli amrywiol i hyrwyddo ei diddordebau ac mae ehangder y meysydd y mae wedi ymgysylltu â hwy hefyd wedi'i ganmol gan dystion.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu y gellir gwneud mwy i godi proffil rhyngwladol Cymru a hyrwyddo ei brand rhyngwladol, yn enwedig drwy gydlynu ei gweithgareddau rhyngwladol yn well. Trafodir y themâu hyn yn fanylach yn yr adrannau a ganlyn.

Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys dwy sesiwn dystiolaeth lafar gydag arbenigwyr academaidd, ar:

- 8 Mai 2018, cafwyd tystiolaeth gan Dr Einion Dafydd, Darlithydd mewn Astudiaethau Seneddol a Deddfwriaethol, a’r Athro Jo Hunt, Darllenydd yn y Gyfraith o Ganolfan Llywodraethiant Cymru; ac ar

- 5 Mehefin 2018, cafwyd tystiolaeth gan Dr Elin Royles, Darlithydd mewn Gwleidyddiaeth Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth, a'r Athro Michael Keating, Cyfarwyddwr y Ganolfan ar Newid Cyfansoddiadol, Prifysgol Caeredin.

Cyflwynodd yr academyddion hyn yr erthyglau a ganlyn er mwyn i'r rapporteur eu hystyried:

- Dafydd, E. 2013. Cautious and creative: Understanding the Welsh Government’s EU interest representation strategy. *Contemporary Wales* 26(1), tt. 162-181;

- Hunt, J a Minto, R. 2017. Between intergovernmental relations and paradiplomacy: Wales and the Brexit of the regions. *British Journal of Politics and International Relations*. 19 (4), tt. 647-662;

- Royles, E. 2016. Substate Diplomacy, Culture, and Wales: Investigating a Historical Institutionalist Approach. Publius: *The Journal of Federalism* 46 (2) tt. 224-247; a

- Royles. E. 2017. Sub-state diplomacy: Understanding the international opportunity structures, *Regional & Federal Studies*, 27:4, 393-416;

- Keating, M. 2010. **The International Engagement of Sub-State Governments**. Lluniwyd ar gyfer Senedd yr Alban.

Ceir crynodeb yma o brif themâu'r dystiolaeth honno.

## 1. 2. Pwysigrwydd cynyddol cysylltiadau rhyngwladol

Yn ei ffordd ei hun, pwysleisiodd pob tyst, yn sgil penderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, y bydd gweithgarwch a strategaeth cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn dod yn fwyfwy pwysig. Roedd y rhesymau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Tynnodd yr Athro Hunt sylw at y ffaith nad yw'r amgylchedd rhyngwladol cystadleuol, y tu allan i'r UE, wedi'i fireinio cystal, nac mor gymwynasgar i anghenion a phryderon is-wladwriaethau. O ganlyniad, bydd yn rhaid i Gymru weithio'n galetach er mwyn cael dylanwad ym Mrwsel ac mewn mannau eraill;

- Amlinellodd yr Athro Keating y bydd llawer mwy o weithgarwch Llywodraeth Cymru, a reoleiddir gan yr UE ar hyn o bryd, yn berthnasol ac yn cael ei lywodraethu gan gytuniadau rhyngwladol newydd a lofnodir gan Lywodraeth y DU gyda'r UE a phartneriaid masnachu eraill; a

- Dadleuodd Dr Dafydd y bydd mewnfuddsoddiad, i wrthbwyso unrhyw golled bosibl o gronfeydd rhanbarthol yr UE, yn dod yn bwysicach fyth i economi Cymru a bywydau'r rhai sy'n byw yng Nghymru. O ganlyniad, bydd ei amlygrwydd gwleidyddol hefyd yn cynyddu.

## 1. 3. Llwyddiant cymysg mewn gweithgarwch rhyngwladol hyd yn hyn

Nodir pum prif faes ar gyfer gweithgarwch rhyngwladol Llywodraeth Cymru, sef:

- cymryd rhan ym mholisi'r UE a dylanwadu arno drwy rwydweithiau a fforymau'r UE;
- cymryd rhan mewn rhwydweithiau rhyngwladol eraill, yn bennaf mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a newid hinsawdd;
- cysylltiadau diwylliannol rhyngwladol, drwy gyrff megis Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a British Council Cymru;
- annog mewnfuddsoddiad a thwristiaeth; a
- chefnogi gwaith datblygu rhyngwladol yng Nghymru ac Affrica.

Nododd Dr Dafydd fod y meysydd hyn yn wahanol iawn, sy'n golygu bod angen rhaglenni a gweithgareddau gwahanol iawn er mwyn cyflawni canlyniadau gwahanol, ond nid ydynt bob amser yn cael eu trin felly.

Canmolodd Dr Royles Lywodraeth Cymru am ddilyn y meysydd gwahanol hyn er eu bod ymysg y gweithredwyr rhyngwladol lleiaf tebygol o ystyried eu cymhwysedd cyfyngedig iawn mewn perthynas â chysylltiadau rhyngwladol.

Dywedodd Dr Dafydd a Dr Royles fod agenda ryngwladol 2015 Llywodraeth Cymru yn rhy ddisgrifiadol, a bod diffyg canlyniadau a thargedau allweddol [gweler adran 1.4 i gael gwybod rhagor am y thema hon].

Tynnwyd sylw at **swyddfeydd rhyngwladol** Llywodraeth Cymru fel enghraifft o'i llwyddiant cymysg yn rhyngwladol. Cyfeiriodd yr Athro Hunt at **ymchwil Ffederasiwn Busnesau Bach o 2017**, sy'n awgrymu ei bod yn ymddangos nad yw lleoli swyddfeydd tramor wedi cael effaith amlwg ar berfformiad allforio. Awgrymodd fod angen i'r swyddfeydd hyn gael eu gwau'n fwy effeithiol â strategaeth fasnach a buddsoddi, a chwestiynodd fethodoleg Llywodraeth Cymru i nodi lleoliad ei swyddfeydd rhyngwladol a'r amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod ar eu cyfer.

Aeth yr Athro Hunt ymlaen i awgrymu y gallai swyddfeydd rhyngwladol weithio orau pan fo buddiannau gwahanol Cymru yn cael eu lleoli ar y cyd, gan nodi Tŷ Cymru ym Mrwsel fel enghraifft. Galwodd Dr Royles ar

Lywodraeth Cymru i sicrhau bod swyddfeydd rhyngwladol wedi'u staffio'n briodol ac yn aml-swyddogaethol, er mwyn gweithredu fel llysgenadaethau bach ar gyfer Cymru, yn hytrach na chael swyddogaeth economaidd yn unig[1].

Mae Llywodraeth Cymru yn **ehangu ei swyddfeydd tramor** yn 2018, gan bwysleisio bod 'timau tramor... yn hyrwyddo Cymru fel lleoliad posibl i fuddsoddi ynddo, ac maent wedi helpu i sicrhau rhai o fuddsoddiadau tramor mwyaf Cymru'. Mewn tystiolaeth lafar i **Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ym mis Hydref 2017**, esboniodd swyddog Llywodraeth Cymru y canlynol:

> ...moving forward with the offices, we've put together business plans so that we know exactly what subsectors we're interested in, whether it be talking about foreign direct investment, what opportunities there are in terms of exporters and also the interest, whether it be from a tourism or higher education perspective.

Dadleuodd Dr Royles y dylai Llywodraeth Cymru feddwl yn strategol ynghylch lle y byddai rhannu safleoedd â chenhadon rhyngwladol presennol y DU yn ei helpu a lle na fyddai'n ei helpu i hyrwyddo buddiannau Cymru yn rhyngwladol.

## 1. 4. Galw am amcanion rhyngwladol clir, â ffocws

Awgrymodd Dr Royles nad oedd gan agenda ryngwladol 2015 Llywodraeth Cymru allbynnau a chanlyniadau ystyrlon ac nad oedd yn rhoi cyfeiriad strategol ar gyfer ei meysydd gwaith amrywiol. Dywedodd Dr Dafydd fod angen i Lywodraeth Cymru gael syniad cliriach o'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni ac y dylai ddatblygu prosesau gwerthuso mwy llym.

Galwodd Dr Royles am weledigaeth tymor hwy a chydgysylltiad gwell o'i strategaeth ryngwladol, a soniodd am waith ymchwil sy'n awgrymu bod yr is-wladwriaethau mwy pwerus yn fwy llwyddiannus wrth gydgysylltu'r ystod eang o weithgareddau rhyngwladol y maent yn ymgymryd â nhw. Pwysleisiodd fod nifer o gamau gweithredu rhyngwladol ac amcanion Llywodraeth Cymru wedi deillio o weinyddiaethau a gweinidogion blaenorol ac nad ydynt, o reidrwydd, yn ymwneud â'i gilydd neu efallai nad ydynt mor

---

[1] Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn dweud bod ei 'swyddfeydd yn rhai amlbwrpas'. Maent yn gyfrifol am fasnach a buddsoddi, cysylltiadau llywodraeth, twristiaeth, diwylliant ac addysg'. Fodd bynnag, **1 neu 2 aelod o staff amser llawn** sydd yn y rhan fwyaf o'i swyddfeydd.

berthnasol o hyd. Mae Brexit, dadleuodd Dr Royles, yn gyfle i Lywodraeth Cymru bwyso a mesur ei dull presennol a meddwl eto am ei hamcanion tymor hir.

Nododd Dr Dafydd a'r Athro Keating y pwysigrwydd bod Cymru yn diffinio neu'n datblygu ei phwynt gwerthu unigryw neu ei harbenigedd. Dadleuwyd bod datblygu arbenigedd mewn maes yn rhoi hwb i gydnabyddiaeth ryngwladol mewn marchnad orlawn. Byddai datblygu arbenigedd cenedlaethol Cymru, dadleuwyd, yn arwain at wledydd eraill yn mynd ati i geisio ymgysylltu â Chymru. Tynnwyd sylw at waith hyrwyddo arbenigedd ynni ar y môr Llywodraeth y Alban, gwaith hyrwyddo dinasoedd clyfar y Ffindir ac arbenigedd yr Iseldiroedd mewn amaethyddiaeth uwch fel esiamplau o arfer da.

Ni chynigiodd y tystion awgrym o ran beth gallai'r pwynt gwerthu unigryw hwn fod. Roedd Dr Dafydd o'r farn y gallai Cymru ddatblygu stori dda petai'n meddwl yn greadigol am ei chryfderau, gan ddadlau bod angen i'w harbenigedd unigryw fod yn gredadwy, hyd yn oed os nad yw'n wir i ddechrau.

Cydnabu'r Athro Keating fod Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig i'r hyn y gall ei gyflawni'n rhyngwladol, o ran adnoddau a chymhwysedd. Fodd bynnag, er mwyn gwella ei heffeithiolrwydd rhyngwladol, argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn dilyn dull daearyddol a/neu sectoraidd o ran ei materion rhyngwladol, gan nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer sectorau economaidd/technolegol/diwylliannol neu ranbarthau yng Nghymru a'u defnyddio fel sail i'w hamcanion a'i gweithgarwch rhyngwladol.

## 1. 5. Arfer gorau

Nododd Dr Royles fod y ffordd y mae cysylltiadau rhyngwladol is-wladwriaeth yn aml yn cael eu gwleidyddoli yn effeithio ar nodi arfer gorau. Dywedodd fod rhai o'r enghreifftiau gorau o is-wladwriaethau sy'n ymgysylltu'n rhyngwladol yn deillio o wladwriaethau a arweinir gan lywodraethau cenedlaetholgar cryf sy'n ceisio cymryd rhan mewn proto-ddiplomyddiaeth, gan geisio adeiladu ar y rhwydweithiau hynny os yw'n cyflawni annibyniaeth.

Fodd bynnag, tynnodd yr Athro Hunt sylw at Québec a thynnodd Dr Dafydd sylw at yr Alban fel enghreifftiau o arfer gorau o ran is-wladwriaethau'n ymgysylltu â chysylltiadau rhyngwladol. **Mae strategaeth ryngwladol**

**newydd Québec** yn canolbwyntio ar nifer fach o hanfodion polisi. Nod y rhain yw:

- gwneud pobl Québec yn fwy ffyniannus;
- cyfrannu at fyd mwy cynaliadwy, cyfiawn a diogel; a
- hyrwyddo creadigrwydd, diwylliant, gwybodaeth a natur benodol Québec.

Mae **fframwaith rhyngwladol** 2017 Llywodraeth yr Alban yn nodi ei huchelgeisiau rhyngwladol a'i hamcanion strategol rhyngwladol. Cefnogir y fframwaith hwn gan **bum strategaeth ymgysylltu ar gyfer gwledydd gwahanol**: Unol Daleithiau America, Tsieina, Canada, India a Phacistan a **Strategaeth Datblygu Rhyngwladol**, sy'n canolbwyntio ar Falawi, Rwanda, Zambia a Phacistan. Goruchwylir y gwaith hwn gan **Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Materion Allanol** a'r **Gweinidog dros Ddatblygu Rhyngwladol ac Ewrop**.

Mewn cyferbyniad, mae gan Gymru agenda ryngwladol a gyhoeddwyd yn 2015 ac nid oes ganddi strategaethau ymgysylltu na datblygu rhyngwladol penodol i wlad, ac mae cyfrifoldeb dros faterion rhyngwladol wedi'i rannu rhwng nifer o bortffolios. Mae'r portffolios hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Prif Weinidog**, sy'n gyfrifol am '[r]eoli'r cysylltiadau gyda gweddill y DU ac yn rhyngwladol';
- **Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**, sy'n gyfrifol am '[g]adeirio’r Grŵp Cynghori ar Ewrop' a chynrychioli Cymru ar y **Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau Ewrop)**;
- **Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**, sy'n gyfrifol am hyrwyddo Cymru fel lleoliad i wneud busnes ac i fuddsoddi ynddo; a'r
- **Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**, sy'n gyfrifol am dwristiaeth i Gymru a thwristiaeth o fewn Cymru, gan gynnwys marchnata a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid.

## 1. 6. Pŵer Cymry ar wasgar

Er mwyn rhoi hwb i broffil tramor Cymru a gwella mewnfuddsoddiad iddi, awgrymodd yr Athro Hunt y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Cymry ar

wasgar yn well, h.y. y rhai sydd â chysylltiadau cryf â Chymru sydd bellach yn byw dramor.

Ar 7 Gorffennaf 2016, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i gefnogi'r gwaith o sefydlu Cwmni Buddiannau Cymunedol, sef **'Global Welsh' i ddatblygu rhwydwaith ac ymgysylltu â'r Cymry ar wasgar**. Cafwyd cyfweliad gan Walter May, aelod sefydlu o GlobalWelsh, i Wales Online, a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2016. Mae'r erthygl yn nodi'r canlynol

> GlobalWelsh has its **origins within the private sector**, emerging four years ago during the inaugural Welsh Entrepreneurs conference in Cardiff. A group of ambitious entrepreneurs and business leaders…have invested time and money amounting to hundreds of thousands of pounds, resulting in a detail plan of how the Welsh diaspora can have a profound effect on Wales' economic future.

Ynddi, mae Walter May yn esbonio'r canlynol

> We already have pledges of private sector investment, which under our proposed model will total 75% of the first year's funding and 100% thereafter.

Fodd bynnag, er bod GlobalWelsh wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, mewn gwledydd eraill, mae gan y mudiadau hyn weinidogion y Llywodraeth yn benodol ar gyfer datblygu'r mudiadau hyn yn y tymor hwy.

Er enghraifft, tynnwyd sylw at Weriniaeth Iwerddon a'r Alban fel enghreifftiau lle mae Llywodraethau'n mynd ati i ddefnyddio pŵer eu pobl ar wasgar. Mae gan y ddwy wlad hyn weinidogion y Llywodraeth sy'n gyfrifol am ddatblygu mudiadau pobl ar wasgar, yn Iwerddon, drwy'r rhaglen Global Irish, dan arweiniad y Gweinidog Gwladol dros Bobl ar Wasgar a Datblygu Rhyngwladol ac yn yr Alban, Gweinidog yr Alban dros Ddatblygu Rhyngwladol ac Ewrop sy'n gyfrifol.

## 1. 7. Gwerth cynnal mynediad at rwydweithiau'r UE

Pwysleisiodd Dr Royles, yr Athro Hunt a'r Athro Keating y pwysigrwydd bod Cymru yn cynnal, i'r graddau y bo'n bosibl, fynediad at yr UE, a rhwydweithiau rhyngwladol eraill y mae'n rhan ohonynt ar hyn o bryd. Yn benodol, canmolodd Dr Dafydd Lywodraeth Cymru am ei phresenoldeb cymharol fawr a gweithredol ym Mrwsel. Ar yr adeg adrodd, roedd gan

Lywodraeth Cymru naw o staff cyfwerth ag amser llawn amser yn gweithio yno. Awgrymodd yr Athro Keating y gall ac y dylai busnesau a sefydliadau cymdeithas sifil fod â rhan wrth gynnal mynediad at rwydweithiau Ewropeaidd.

Dadleuodd yr Athro Hunt y bydd mynediad at y rhwydweithiau hyn yn bwysicach yn y dyfodol, nid dim ond er mwyn cynnal y manteision presennol y mae Cymru yn eu cael o gymryd rhan ynddynt. Dywedodd yr Athro Hunt, os yw Cymru am ddylanwadu ar yr UE a dysgu ohono ar ôl Brexit, y bydd angen iddi gael y deallusrwydd a'r cysylltiadau sydd ar gael drwy'r rhwydweithiau hyn.

Pwysleisiodd Dr Dafydd a'r Athro Hunt fod gan ranbarthau nad ydynt yn aelodau o'r UE ac is-wladwriaethau swyddfeydd a'u bod yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau ym Mrwsel. Galwodd Dr Royles ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu safbwynt clir ar y rhwydweithiau Ewropeaidd y mae am ymgysylltu â hwy ar ôl Brexit a'r hyn y mae am ei gael o'r ymgysylltiad hwnnw.

Mae'n ymddangos bod y dystiolaeth a gafwyd yn gyson â'r hyn a gafwyd yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i Berthynas Cymru â'r UE yn y Dyfodol. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion ar gynnal rhwydweithiau a pherthnasoedd yr UE yn ei adroddiad rhan 1 ac, ar hyn o bryd, mae'n trafod hyn ymhellach yn ei adroddiad rhan 2.

## 1. 8. Roedd angen meddwl ymhellach am gyfranogiad datganoledig mewn cytundebau rhyngwladol ar ôl Brexit

Tynnodd yr Athro Hunt, Dr Royles a'r Athro Keating sylw at yr heriau cyfansoddiadol sy'n cael eu creu oherwydd Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd a'r bygythiad posibl i ddylanwad rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

Pwysleisiodd yr Athro Hunt fod Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, yn gallu dylanwadu ar bolisi'r UE drwy Lywodraeth y DU[2], drwy brosesau llunio polisi'r UE a rhwydweithiau rhanbarthol. Aeth yr Athro Hunt ymlaen i awgrymu ei bod yn bosibl na fydd llwybrau tebyg ar gael i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

---

[2] Mae'r **Concordat ar Gydgysylltu Materion Polisi'r UE** yn darparu fframwaith y berthynas hon.

Awgrymodd Dr Dafydd a Dr Royles fod y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, hyd yn hyn, wedi bod yn eithaf cymwynasgar wrth ganiatáu i Lywodraeth Cymru ddilyn ei hamcanion rhyngwladol. Awgrymodd Dr Dafydd nad oes rheswm dros amau y byddai'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn newid ei safbwynt yn sylweddol ar hyn. Nododd Dr Royles fod Adrannau eraill Llywodraeth y DU, megis Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), wedi bod yn llai cymwynasgar.

O ganlyniad, roedd y ddau'n nodi bod y sefyllfa bresennol yn aml yn cael ei hadeiladu ar berthnasoedd cydweithredol, gyda Chymru yn gweithio gyda gwladwriaeth y DU neu drwyddi i ddilyn ei diddordebau, er ei bod yn gweithredu'n annibynnol ac yn ymreolaethol fel Llywodraeth Cymru mewn rhai rhwydweithiau.

Mae yr Athro Hunt a Dr Minto, yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, yn crynhoi dull Cymru fel 'Good European' a 'Good Unionist'. Ond cododd Dr Royles amheuon ai hwn yw'r dull mwyaf llwyddiannus, gan nodi mai anaml iawn y mae buddiannau Cymru yn uchel ar agenda Llywodraeth y DU.

Esboniodd yr Athro Keating y bydd angen adolygu'r system bresennol o berthnasoedd rhynglywodraethol sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol gan fod y rhaniad rhwng polisi domestig a pholisi rhyngwladol bron wedi'i chwalu'n llwyr gan fod cytundebau rhyngwladol bellach yn cwmpasu cynifer o feysydd polisi datganoledig. Dadleuodd y bydd hyn yn gwaethygu ar ôl Brexit, gan y bydd hen reoliadau a phrosesau'r UE sy'n effeithio ar gymwyseddau datganoledig yn cael eu cwmpasu gan gytundebau rhyngwladol nad oes gan y gwledydd datganoledig, ar hyn o bryd, rôl ffurfiol wrth eu llunio.

Aeth yr Athro Keating ymlaen i awgrymu bod angen dull mwy cytbwys, neu ffederal, ar gytundebau rhyngwladol yn y dyfodol lle effeithir ar gymwyseddau datganoledig. Awgrymodd y dylai gweinyddiaethau datganoledig gael cyfle cyfartal i ddylanwadu ar y cytundeb, gydag opsiwn iddynt atal Llywodraeth y DU rhag cytuno ar delerau'n unochrog. Galwodd Dr Royles hefyd am ffurfioli rôl gweinyddiaethau datganoledig ymhellach wrth lunio cytundebau rhyngwladol sy'n effeithio arnynt.

Rhybuddiodd yr Athro Hunt am y perygl bod y pwerau datganoledig presennol yn cael eu naddu gan ddeddfwriaeth y DU a chytuniadau rhyngwladol sy'n gysylltiedig â Brexit a fydd yn rhwymo Llywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig. Roedd yr Athro Keating yn rhannu'r pryderon

hyn, a rhybuddiodd fod cynseiliau cyfansoddiadol sydd, ar y cyfan, yn osgoi'r gweinyddiaethau datganoledig, yn cael eu gosod yn ddiofal ac yn gyflym, yn aml heb ddigon o waith craffu, gan fod Llywodraeth y DU yn ceisio gwthio trwodd yr holl ddeddfwriaeth a threfniadau angenrheidiol sydd eu hangen er mwyn cyflawni ar ymadawiad â'r UE.

Argymhellodd Dr Royles fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod, wrth i'r setliad datganoli ddatblygu ac wrth i Brexit fynd rhagddo, yn sicrhau'r un hawliau a phwerau i gymryd rhan yng nghyd-destun yr UE ac yn rhyngwladol fel ei chymheiriaid yn yr Alban. Dadleuodd Dr Royles fod hyn yn ddymunol oherwydd bod Llywodraeth yr Alban mewn sefyllfa negodi gryfach na Llywodraeth Cymru. Felly, mae'n fwy tebygol o negodi setliad sy'n cynnal neu'n cynyddu'r pwerau sydd ar gael i weinyddiaethau datganoledig (o'u cymharu â rhagolygon Llywodraeth Cymru). Yn ogystal, byddai trefniad cyffredin ar draws gwledydd datganoledig y DU yn symlach ac yn hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth o ran lle mae pwerau wedi'u datganoli neu wedi'u cadw.

Mae safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ar y materion hyn wedi'i nodi yn ei **phapur polisi, sef Brexit a Datganoli**, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017.